

Sul y Beibl

Nac anghofiwn y clagwydd herciog
A roes ambell gwilsyn i'r Esgob Morgan,
Gan roddi nawdd ei esgyll i'r iaith Gymraeg.

Gwilym R. Jones, 'Salm i'r Creaduriaid'

EMYNAU

Profiad y genedl yn yr anialwch dan arweiniad Moses a geir yn yr emyn hwn:

Mae dy air yn abl i'm harwain
drwy'r anialwch mawr ymlaen,
mae e'n golofn olau, eglur,
weithiau o niwl, ac weithiau o dân;
mae'n ddi-ble ynddo fe,
fwy na'r ddaear, fwy na'r ne'.

William Williams (*Caneuon Ffydd*: 185)

Mae cryn amheuaeth ynglŷn ag awdur y pennill hwn ond pwy bynnag yw'r awdur mae ei neges yn glir a diamwys:

Dyma Feibil annwyl Iesu,
dyma rodd deheulaw Duw;
dengys hwn y ffordd i farw,
dengys hwn y ffordd i fyw;
dengys hwn y golled erchyll
gafwyd draw yn Eden drist,
dengys hwn y ffordd i'r bywyd
drwy adnabod Iesu Grist.

Casgliad T. Owen *priodolir* i Richard Davies (*Caneuon Ffydd*: 198)

Emyn o fawl am air Duw yw emyn Tilsley a luniwyd yn arbennig ar gyfer oedfaon y Synod Fethodistaidd yn Rhuthun, Ebrill 1975:

Mawl i Dduw am air y bywyd,
 gair y nef yn iaith y llawr,
 gair y cerydd a'r gorchymyn,
 gair yr addewidion mawr;
 gair i'r cadarn yn ei afiaith,
 gair i'r egwan dan ei bwn,
 cafodd cenedlaethau daear
 olau ffydd yng ngeiriau hwn.

Gwilym R. Tilsley (*Caneuon Ffydd*: 201)

‘Yr ydych yn chwilio’r Ysgrythurau,’ meddai Iesu, ‘oherwydd tybio yr ydych fod ichwi fywyd tragwyddol ynddynt. Ond tystiolaethu amdanaf fi y mae’r rhain; eto ni fyynnwch ddod ataf fi i gael bywyd’:

O Arglwydd, dysg im chwilio
 i wirioneddau'r Gair
 nes dod o hyd i'r Ceidwad
 fu gynt ar liniau Mair;
 mae ef yn Dduw galluog,
 mae'n gadarn i iacháu;
 er cymaint yw fy llygredd
 mae'n ffynnon i'm glanhau.

Grawn-Syppiau Canaan, 1805 (*Caneuon Ffydd*: 333)

Mewn cyfnod o anniddigrwydd o fewn ei eglwys y cyfansoddodd Elfed yr emyn hwn a hynny er mwyn tawelu'r cynnwrf:

Hyfryd eiriau'r Iesu,
 bywyd ynddynt sydd,
 digon byth i'n harwain
 i dragwyddol ddydd:
 maent o hyd yn newydd,
 maent yn llawn o'r nef;
 sicrach na'r mynyddoedd
 yw ei eiriau ef.

Elfed (*Caneuon Ffydd*: 381)

Y mae geiriau'r emyn hwn yn seiliedig ar adnod o'r Salm Fawr sy'n cyfeirio at y gair fel 'llusern i'm troed a goleuni i'm llwybr':

Am air ein Duw rhown â'n holl fryd
soniarus fawl drwy'r eang fyd;
mae'n llusern bur i'n traed, heb goll,
mae'n llewyrch ar ein llwybrau oll.

Gomer (*Caneuon Ffydd*: 172)

GWEDDIAU

Agor ein llygaid o'r newydd i ni geisio cerdded dy ffordd di:

O! Arglwydd ein Duw, sydd mor agos atom, diolchwn i ti am wahoddiad dy Air i alw arnat mewn gweddi. Ond inni dy geisio di, fe allwn dy gael, oherwydd yr wyt ti'n ein ceisio ni eisoes ac yn galw arnom. Yng nghanol tryblith ein hoes, diolch i ti am ein sicrhau nad ydym ar drugaredd ein syniadau a'n meddyliau ni ein hunain. Fe'n rhybuddiaist nad yr un yw dy feddyliau di â'n meddyliau ni, na'th ffyrdd di â'n ffyrdd ni. Agor ein llygaid i weld dy ffordd di, a'n calonnau i ymglywed â'th feddyliau di, yn Iesu Grist. Amen.

Saunders Davies

Gweddiwn dros y rhai fydd yn agor tudalennau'r Beibl am y tro cyntaf heddiw:

Fe gyflwynwn i ti, Dad Nefol, y rhai hynny a fydd heddiw yn agor y Beibl am y tro cyntaf a dysgu am gyflawnder dy gariad a'th ras achubol yn Iesu Grist. Gweddiwn y daw pob un ohonynt yn ymwybodol o bresenoldeb yr Ysbryd Glân fel eu cymorth a'u harweinydd, fel y llu a fydd yn agor eu calonnau a'u meddyliau i Iesu y Gair tragwyddol a ddaeth yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith. Gweddiwn y bydd neges y newyddion da i bawb ym mhob man yn cael ei dderbyn, ei ddeall a'i weithredu ym mywydau beunyddiol pob un ohonom, gan ddiolch fod Iesu wedi dod i wneud y Gwirionedd yn rhodd i bobl pob oes a diwylliant. Amen.

Gweddiâu ar gyfer Dydd yr Arglwydd, D. Ben Rees (gol.)

Diolch am Feibl yn ein hiaith ond gofynnwn am dy gymorth i'w ddarllen a'i ddeall:

Mor llawen ydym, Arglwydd, fod gennym Feibl,

A hwnnw yn ein hiaith ein hunain.

Maddau ein hamharodrwydd i'w agor yn amlach.

Cyfaddefwn ein bod yn ysu am ddarllen popeth ond dy Air di.

Rho inni help i'w ddeall, nes meddiannu'r trysor sydd yn ei eiriau.

Agor ein llygaid i weld drwy'r geiriau y Gair – dy ryfedd Fab.

Agor ein clustiau i glywed ei lais fel y deallom neges ei ddyfodiad i'n byd.

Agor ein calon i roi lle i Iesu fel ein Gwardwr a'n Harglwydd.

Gwna ein Beibl, Arglwydd, yn Air y Bywyd i ni –

ac i lu o'n cyd-Gymry. Amen.

Elfed ap Nefydd Roberts

Cofiw'n fod Duw yn cyfathrebu â'i bobl mewn amryfal ffyrdd:

Gwarded ni rhag ymhyfrydu yng ngeiriau'r ysgrythur yn unig. Pâr inni gofio mai tystiolaethu am dy annwyl Fab, Iesu Grist, y mae'r ysgrythurau, a'th fod yn ein gwahodd i ddod ato ef i gael bywyd yn nerth yr Ysbryd Glân. Ynot ti, O! Drindod Sanctaidd, y gorwedd ein hunig obaith. Amen.

Saunders Davies

Nid digon yw gwybod y geiriau; mae'n rhaid adnabod y Gair:

Heddiw, ar Sul y Beibl, diolchwn i ti am y geiriau sy'n dwyn tystiolaeth i'r 'Gair a ddaeth yn gnawd', y geiriau sy'n llefaru wrthym am dy lefaru rhyfeddol di. Gofynnwn ar i ti, trwy dy Ysbryd Glân, blannu'r awydd ynom i ddarllen, fel ein bod yn 'gwybod y geiriau', ac ar yr un pryd yn clywed dy lais di yn llefaru wrthym fel ein bod wedyn yn 'adnabod y Gair'.

Diolchwn i ti am y trysor godidog hwn sydd yn ein meddiant a maddau i ni ein bod yn medru bod mor ddi-hid ohono. Maddau'r cloriau caeedig a dieithrwch y tudalennau, a dysg i ni eto ei werth a'i gyfoeth. Amen.

Trefor Jones Morris

ADNODAU**Ar ddechrau ei weinidogaeth darllenodd Iesu'r Ysgrythur o lyfr y proffwyd Eseia:**

“Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf,
 oherwydd iddo f'eneinio
 i bregethu'r newydd da i dlodion.
 Y mae wedi f'anfon i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion,
 ac adferiad golwg i ddeillion,
 i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd,”

Luc 4: 18

Mae'r Ysgrythurau wedi eu rhoi i'n dysgu a'n harwain:

Ac fe ysgrifennwyd yr Ysgrythurau gynt er mwyn ein dysgu ni, er mwyn i ni, trwy ddyfalbarhad a thrwy eu hanogaeth hwy, ddal ein gafael yn ein gobaith.

Rhufeiniaid 15: 4

Profiad o'r galon ar dân oedd profiad y ddau pan oedd y cydymaith yn dehongli'r Ysgrythurau iddynt ar y ffordd i Emaus:

Meddent wrth ei gilydd, “Onid oedd ein calonau ar dân ynom wrth iddo siarad â ni ar y ffordd, pan oedd yn egluro'r Ysgrythurau inni?”

Luc 24: 32

Mae Iesu'n gweld ei hun fel un sy'n dod i gyflawni'r Ysgrythurau:

Plant Duw ydynt, am eu bod yn blant yr atgyfodiad. Ond bod y meirw yn codi, y mae Moses yntau wedi dangos hynny yn hanes y Berth, pan ddywed, ‘Arglwydd Dduw Abraham a Duw Isaac a Duw Jacob’.

Luc 20: 36–37

Pan oedd Iesu'n llefaru roedd y bobl yn gwranddo ar air uniongyrchol Duw:

Unwaith pan oedd y dyrfa'n gwasgu ato ac yn gwrando ar air Duw, ac ef ei hun yn sefyll ar lan Llyn Genesaret,

Luc 5: 1

Mae Iesu'n dod i'r byd i gyflawni y gair a lefarwyd trwy'r proffwyd:

A digwyddodd hyn oll fel y cyflawnid y gair a lefarwyd gan yr Arglwydd trwy'r proffwyd:

“Wele, bydd y wryf yn beichiogi, ac yn esgor ar fab, a gelwir ef Immanuel”.

Mathew 1: 22–23

DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Y ffordd orau i adfywio eglwys yw cynnau tân yn y pulpud.

Mae'r Beibl wedi'i gyfieithu i o leiaf 2,018 o ieithoedd.

Llyfrgell o 66 o lyfrau yw'r Beibl wedi eu hysgrifennu gan 44 o wahanol awduron dros gyfnod o 1,600 o flynyddoedd a hynny mewn tair iaith – Hebraeg, Aramaeg a Groeg.

Mae'r Beibl yn cynnwys 31,173 o adnodau i gyd – 23,214 yn yr Hen Destament a 7,959 yn y Testament Newydd.

Llyfr Esther ydi'r unig lyfr yn y Beibl nad yw'n cynnwys yr enw Duw.